# PWYLLGOR RHANBARTH Y DE DDWYRAIN

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR (Atodiadau ar gael yn Saesneg yn unig)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener 21 Mehefin 2002 |
| **Amser:** | 9.30am hyd 12.30pm |
| **Lleoliad:** | Gwesty Maes Manor, Coed-duon |

**Yn bresennol:**

*Aelodau:*

| | |
|---|---|
| Jonathan Morgan (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| Geraint Davies | Rhondda |
| Ron Davies | Caerffili |
| Sue Essex | Gogledd Caerdydd |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| David Rhys Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding | Canol De Cymru |
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |
| Owen John Thomas | Canol De Cymru |

| | |
|---|---|
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

*Yn bresennol:*

| | |
|---|---|
| Neil Crumpton | Cyfeillion y Ddaear - Cymru |
| Peter Hinson | Cymdeithas Ynni Gwynt Prydain |
| Peter Dickson | United Utilities Green Energy Ltd |

*Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Roger Chaffey | Clerc y Pwyllgor |
| Claire Griffiths | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Sylwadau agoriadol**

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn falch fod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn etholaeth Islwyn. Rhoddodd groeso i aelodau o'r amryw gyrff a oedd wedi'u cynrychioli yn y gynulleidfa ac yn arbennig i aelodau'r cyhoedd. Estynnodd ei ddiolch i reolwyr Gwesty Maes Manor am gael defnyddio eu cyfleusterau ac am eu cymorth.

Dywedodd Brian Hancock ei fod wrth ei fodd fod y Pwyllgor Rhanbarth yn cwrdd yn etholaeth Islwyn am y tro cyntaf.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb**

1. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Rosemary Butler, Christine Chapman, David Davies, Mike German, Pauline Jarman, Huw Lewis, Rhodri Morgan a Lynne Neagle.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mai SEWR-03-02 (min)**

2.1 Dywedodd Brian Hancock ei fod wedi ffonio Uned Fusnes Coleg y Barri ar ddiwrnod y

cyfarfod i gynnig ei ymddiheuriadau. Cytunwyd i newid y cofnodion yn unol â hynny ac yna cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod ar 17 Mai.

**Eitem 3: Sesiwn meicroffon agored**

3.1 Cododd aelodau'r cyhoedd y materion canlynol:

- Cyfeiriwyd yn benodol at brosiect o dan y rhaglen "Rhoi Cymunedau'n Gyntaf" yn Nhorfaen. Awgrymwyd bod y cyllid yn ôl pob golwg yn rhoi gwaith i fiwrocratiaid pan ddylai'r arian fod yn cael ei dargedu at y prosiect.
- Mewn ymateb, roedd Aelodau'r Cynulliad yn unedig yn dweud bod y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn darparu llawer iawn o werth ac yn gwella bywydau pobl mewn ardaloedd sy'n ddifreintiedig yn gymdeithasol. Bwriedir i'r Cynllun weithio o'r gwaelod i fyny a bod cymunedau unigol yn teimlo eu bod yn berchen arno. Fodd bynnag, mewn rhai cymunedau, nid oes gallu digonol ar y dechrau i sefydlu'r rhwydweithiau a dyna pam y mae swyddogion yn cael eu cyflogi i annog a chynorthwyo grwpiau cymuned. Cynghorodd yr aelodau y sawl a gododd y cwestiwn i fynegi ei phryderon yngln â'r prosiect penodol wrth ei AC lleol, Lynne Neagle.
- Teimlid bod angen rhagor o reolaeth a phwerau ar y Cynulliad Cenedlaethol.
- Cytunai'r Aelodau â'r datganiad hwn mewn egwyddor ond dywedasant nad yw'r Cynulliad ond yn ei fabandod o hyd a bod y mater hwn yn rhan o drafodaeth lawer ehangach sy'n cwmpasu ASau, ACau, awdurdodau lleol a phobl Cymru.

**Eitem 4: Adolygiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd o Bolisi Ynni yng Nghymru.**

4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd Dr Phil Williams AC ac estynnodd groeso i gynrychiolwyr o Gyfeillion y Ddaear, Cymdeithas Ynni Gwynt Prydain ac United Utilities Green Energy Ltd a gwahoddodd nhw i wneud eu cyflwyniadau.

2. Rhoddodd Phil Williams ei gyflwyniad ef, a oedd ar ran y Pwyllgor Datblygu Economaidd. Ychwanegodd fod y Pwyllgor yn llwyr gefnogi'r Adolygiad. Mae copi o'i gyflwyniad i'w weld yn **Atodiad 1**.
3. Rhoddodd Neil Crumpton, yn cynrychioli Cyfeillion y Ddaear, Cymru, ei gyflwyniad ef gan ganolbwyntio ar yr ymgynghoriad yngln ag ynni adnewyddadwy a'r targedau effeithlonrwydd ynni. Y prif bwyntiau a wnaed oedd:

- Mae ynni adnewyddadwy yn ddewis amgen pwysig o safbwynt amgylcheddol er mwyn lliniaru effaith y cynhesu byd-eang, a gallai ddod â chyfleoedd economaidd yn ei sgîl i Gymru.
- Bydd effaith y cynnydd mewn allyriannau Carbon sy'n cael ei flaenamcanu yn dod yn

amlwg yn y 10 – 20 mlynedd nesaf. Roedd pobl yn Ne'r Môr Tawel eisoes yn teimlo'r effeithiau ac maent yn gorfod symud i Seland Newydd. Effaith y cynhesu byd-eang yw'r llifogydd gaeaf sy'n digwydd yng Nghymru.

- Mae gan Gymru gyfle i arwain ar ddatblygu cynaliadwy ac arloesi er mwyn gwella'r amgylchedd.
- Mae allyriannau $CO_2$ o drydan a gynhyrchir i gyfrif am 28% o gyfanswm y DU. Gall trydan gynhyrchu hydrogen, sy'n ffynhonnell ynni y gellir ei storio, a gallai hynny oresgyn y broblem barhaus gyda $CO_2$.
- Byddai ynni adnewyddadwy hefyd yn gost-effeithiol, yn saff, yn lân, byddai'n lleihau'r bygythiad o derfysgaeth (mae gorsafoedd niwclear yn cael eu hystyried yn dargedau), byddai'n ffynhonnell frodorol a byddai'n creu rhagor o swyddi.
- Teimlid y gellid ystyried a chodi un garfan arall o ffermydd gwynt alltraeth.
- Teimlid y dylid pennu safonau gofynnol yn hytrach na thargedau.
- Mae Cymru yn lleoliad delfrydol lle gellid ystyried morlynnoedd llanw gan fod yna botensial ar gyfer dau gynllun mawr, sef Moryd Afon Hafren a Bae Lerpwl.

2. Rhoddodd Peter Hinson, yn cynrychioli Cymdeithas Ynni Gwynt Prydain, ei gyflwyniad. Dywedodd ei fod yn fodlon i'r aelodau gael copi papur o'r cyflwyniad, sydd i'w weld yn **Atodiad 2**.
3. Rhoddodd Peter Dickson o United Utilities Green Energy Ltd ei gyflwyniad. Dywedodd mai cwmni o Gaerdydd sy'n datblygu cynhyrchion biomas yw United Utilities Green Energy Ltd. Prif bwyntiau ei gyflwyniad oedd:

- Roedd dyfodol ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn allweddol mewn strategaethau busnes. Y meysydd lle gellid defnyddio hyn oedd: cynlluniau trydan dr bach, nwy o gladdfeydd sbwriel, ynni gwynt, nwy o byllau glo (gan weithio gyda phwll y Tr) a biomas. Roedd y blaenamcanion yn darogan twf mawr, uchelgeisiol, ym maes ynni adnewyddadwy.
- Câi'r adolygiad ei groesawu ac roedd yn amserol iawn.
- Teimlai fod cysylltiad annatod rhwng dyfodol newidiadau hinsoddol a thocio'r economi carbon rhyngwladol a dywedodd fod hyn yn bwnc o bwys i'w drafod yn ddiweddarach yn y flwyddyn mewn Cynhadledd sydd i'w chynnal yn Johannesburg.
- Roedd yna rôl bwysig i'w chwarae gydag adnoddau ac roedd Cymru yn llygad ei lle yn mynnu defnyddio ynni adnewyddadwy mewn datblygiadau ar gyfer y dyfodol.
- Nid gosod targedau caeth oedd y ffordd ymlaen gan nad ydynt yn ddigon hyblyg.
- Teimlai y gallai biomas ychwanegu gwerth at economi cefn gwlad drwy greu swyddi, mae yna ddigonedd o ddeunyddiau crai a châi ynni ei gynhyrchu mewn rhanbarthau lle mae yna yn draddodiadol wendidau yn y system rwydweithio.

4.6 Diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr i gyd.

**Eitem 5: Sesiwn meicroffon agored ar yr Adolygiad o Bolisi Ynni yng Nghymru**

1. Cododd yr aelodau y pwyntiau canlynol:

- Mynegwyd pryder yngln â'r swyddi a gollwyd yn ddiweddar ym maes ynni solar yng Nghymru. Roedd y cwmni neilltuol hwn yn allforio'r rhan fwyaf o'i gynnyrch i'r Almaen ond cafodd ei brisio allan o'r farchnad.
- Teimlai rhai aelodau fod angen targedau gan eu bod yn gosod nod i weithio tuag ato.
- Mae cymoedd De Cymru yn cynnwys y goedwig drefol fwyaf yn Ewrop. A yw'n ddichonadwy i dechnoleg biomas gael ei defnyddio o'r ardal hon ar sail reolaidd?
- Canolbwyntiodd rhaglen deledu yn ddiweddar ar ffermydd aligatoriaid a chrwbanod y môr yn Fflorida lle'r oedd newidiadau yn ymddangos ym mhriodoleddau corfforol yr anifeiliaid ac roedd y rheini wedi'u cysylltu â'r cynhesu byd-eang.
- Holodd yr aelodau yngln â manteision ac anfanteision argaeau o'u cymharu â morlynnoedd.
- Teimlai'r aelodau fod y cyhoedd mewn cyfyng gyngor yngln â ffermydd gwynt a theimlent fod angen newid yr argraffiadau sydd gan bobl ohonynt.
- Mae cynllunio o'r canol wedi gweithio'n dda yn y diwydiant ynni. Mae pwysau wedi deillio o'r cynllun gofodol ar gyfer trafnidiaeth.
- Mae gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru feddalwedd sy'n gallu plotio ardaloedd addas ar gyfer ffermydd gwynt ac mae wedi cyfrannu'n fuddiol tuag at brosesau cynllunio. Mae gwaith y Cyngor Cefn Gwlad wedi darparu sylfaen wrthrychol ar gyfer penderfyniadau cynllunio dadleuol ac mae wedi newid y pwyslais o fod yn rhagweithiol i fod yn adweithiol.

1. Gwnaed y pwyntiau canlynol gan aelodau'r cyhoedd:

- Os yw pob opsiwn ar agor mewn perthynas ag ynni adnewyddadwy, pa gynnydd fyddwn ni'n ei weld mewn perthynas â'r argae a ragwelir ar draws Afon Hafren?
- Sut gellir gwarchod buddiannau'r cyhoedd yn y broses gynllunio?
- Pam nad oes grantiau ar gael i helpu perchnogion tai i osod paneli ynni solar yn yr un ffordd ag y mae yna grantiau tuag at ynysu tai?
- Mae angen swmp enfawr o greigiau i adeiladu morlynnoedd llanw a bydd hynny yn ei dro yn effeithio ar yr amgylchedd. Mae ymchwil wedi dangos y bydd gwaddod yn effeithio ar draethau.
- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi bod yn gweithio'n ddygn ar raglen rheoli ynni yn ei dai cymdeithasol. Mae angen rheoliadau i alluogi pob awdurdod lleol i wneud yr un fath.
- Ceisio cwtogi ar y cynnyrch a ddefnyddiwn ac osgoi gwastraff.
- Pa dechnegau gwerthuso sydd ar gael i gydnabod y dechnoleg sy'n bodoli ar hyn o bryd?

1. Mewn ymateb, rhoddwyd yr atebion a ganlyn:

- Byddai'n well pennu ymrwymiadau gofynnol yn hytrach na thargedau er mwyn gwireddu gostyngiad yn yr allyriannau carbon.
- Mae Cymru yn safle ar gyfer morlynnoedd llanw. Technoleg gweddol syml sy'n ofynnol i'w hadeiladu. Caiff y morlynnoedd eu lleoli filltir o'r lan ac nid ydynt yn difrodi'r traethlin i'r un graddau ag argaeau.
- Dengys y dystiolaeth fod yna gefnogaeth i ffermydd gwynt. Teimlid bod argraffiadau drwg yn deillio o'r cyfryngau.
- Mae'r tyrbinau gwynt presennol yn effeithlon iawn ond o'u gwneud yn fwy, symudiad sy'n cael ei wthio gan yr Almaen a Denmarc, byddai'r tyrbinau yn gallu cynhyrchu 4-5 gwaith mwy o ynni oherwydd dynameg y rotorau. Byddai cynyddu eu maint yn golygu bod modd gostwng y costau yn ddramatig a byddent yn llawer mwy cost effeithiol.
- Byddai'n well osgoi targedau yng nghyd-destun defnyddio ynni adnewyddadwy. Ceisir gostwng lefel yr allyriannau carbon – ffactor y canfuwyd ei fod yn achosi newid yn yr hinsawdd. Teimlir y gellid cyflwyno cosbau am fethu â gostwng lefel yr allyriannau carbon. Byddai hyn yn trosglwyddo'r pwysau i'r cwmnïau hynny sy'n cynhyrchu carbon ac yn rhoi gwerth i'r rhai sy'n llwyddo i ostwng lefel eu hallyriannau.
- Credir bod yna lawer o werth i fiomas ond mae cynaeafu'r deunyddiau yn costio'n ddrud oherwydd topograffi coedwigoedd De Cymru.
- Roedd gormod o goel yn cael ei rhoi ar ddadl y lobi yn erbyn ffermydd gwynt.
- Mae angen mynd i'r afael â thlodi o ran tanwydd gan ei fod yn fater pwysig nid yn unig o ran bod yn gynnes a chyfforddus yn eich cartref ond mae hefyd yn effeithio ar iechyd a lles. Dylid ystyried gosod paneli solar o dan y cynllun effeithlonrwydd ynni yn y cartref er mwyn helpu i liniaru tlodi o ran ynni.
- Nid datblygwyr sy'n gwneud penderfyniadau cynllunio. Caiff cynigion eu hasesu'n ffurfiol a thrylwyr a gwneir y penderfyniadau gan gynghorwyr ac, mewn rhai achosion, y Cynulliad Cenedlaethol.
- Rhaid i adeiladau fod yn fwy cynaliadwy. Mae i ffactorau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ran yn yr hafaliad. Pe câi'r costau amgylcheddol eu hychwanegu byddai pwysau'r costau a gymharir yn newid yn ddramatig, gan wneud datblygiadau cynaliadwy yn fwy cost effeithiol.
- Yn anffodus, nid yw'r rheoliadau wedi cael eu datganoli i'r Cynulliad. Mae angen bod yn fwy llym. Da yw gweld y gwaith sydd ar y gweill gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac mae angen perswadio datblygwyr i ymgorffori cynlluniau effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau newydd, yn rhai domestig a masnachol.
- Yn sgîl ymrwymiadau Kyoto ar newid hinsoddol, rhaid gwybod ymhle y bydd y bylchau o ran cynhyrchu ynni a beth fydd y rhychwant amser. Mae'n hanfodol fod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn awr yngln â'r ffordd ymlaen.

1. I gloi, dywedodd Phil Williams:

- Mae **effeithlonrwydd** yr un mor bwysig â chyflwyno ynni adnewyddadwy er mwyn gostwng lefel y carbon a gynhyrchir. Effeithlonrwydd ynni yw cam nesaf adolygiad ynni y Pwyllgor Datblygu Economaidd.

- Mae **cynllunio** targedau y gellir eu cyflawni mewn ymgynghoriad â'r awdurdodau lleol o bwys canolog er mwyn sicrhau gwelliannau.
- Ni ellir osgoi'r ystyriaethau **costau**. Sylweddolir bod rhai mathau o dechnoleg yn rhatach nag eraill.
- Ar fater Argae Afon Hafren, cafodd hyn ei godi gyntaf yn 1924. Byddai'r prosiect yn eithriadol o gostus ac mae'r effeithiau amgylcheddol yn ansicr. Ni fyddai angen cynllun o'r maint hwn am gryn nifer o flynyddoedd.

1. Diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr i gyd ac i aelodau'r gynulleidfa am ysgogi'r fath ddadl ddiddorol. Atgoffodd y gynulleidfa ei bod yn dal yn bosibl cyflwyno sylwadau ar yr adolygiad i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn y Cynulliad Cenedlaethol.

**Eitem 6: Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor**

6.1 Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau fod drafft o'r Adroddiad Blynyddol wedi ei gylchredeg iddynt ac na ddaeth unrhyw sylwadau i law. Gofynnodd i'r Pwyllgor a oedd yn fodlon i'r adroddiad gael ei gyfeirio i'r Cyfarfod Llawn. Ychwanegodd ei fod ef wedi'i restru ddwywaith yn yr adroddiad: paragraffau 2 a 3. Dywedodd y Clerc y câi'r adroddiad ei newid. Cytunodd y Pwyllgor.

**Eitem 7: Ethol Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfer 2002-03**

7.1 Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn sefyll i lawr fel Cadeirydd yn unol â'r cytundeb rhwng grwpiau'r pleidiau a gwahoddodd enwebiadau i swydd y Cadeirydd. Owen John Thomas oedd yr unig enw a gynigiwyd, ac fe'i hetholwyd yn briodol.

7.2 Ar ran y Pwyllgor, diolchodd Peter Law i Jonathan Morgan am ei waith caled a'i ymroddiad fel Cadeirydd dros y flwyddyn ddiwethaf.

**Eitem 8: Dyddiad y cyfarfod nesaf**

8.1 Nid oedd y rhestr ar gyfer y cyfarfod nesaf wedi cael ei chymeradwyo eto. Caiff yr aelodau eu hysbysu cyn gynted ag y daw i law.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mehefin 2002**